# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Lleoliadau Di-dâl

## Polisi a Gweithdrefn Lleoliad

Fframwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Polisi a Gweithdrefn Lleoliad ar gyfer recriwtio, cydlynu, cefnogi a rheoli'r holl leoliadau o fewn y sefydliad, gan gynnwys:

**Lleoliadau â thâl:**

- Prentisiaethau
- Lleoliadau Addysg Uwch

**Lleoliadau di-dâl:**

- Lleoliadau Gwaith
- Lleoliadau Profiad Gwaith i Fyfyrwyr
- Lleoliadau Ymchwil
- Lleoliadau gwirfoddol Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio yn amlinellu pa wybodaeth rydym yn ei chasglu gan gyfranogwyr lleoliadau **â thâl**, sy'n bersonél sy'n cael eu cyflogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn amlinellu pa wybodaeth rydym yn ei chasglu gan gyfranogwyr lleoliadau **di-dâl** a sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth honno.

## Manylion adnabod a chyswllt y Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gallwch gysylltu â hwy drwy anfon e-bost at dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy ffonio 0300 065 3000.

## Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Er mwyn cynnig a rheoli lleoliadau di-dâl a recriwtio cyfranogwyr, mae angen inni gasglu gwybodaeth gan y cyfranogwyr yn ystod camau canlynol y weithdrefn leoli:

**Gwneud cais am leoliad**

Pan fyddwch yn gwneud cais am leoliad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gofynnir ichi roi gwybodaeth bersonol yn y ffurflen gais, gan gynnwys eich:

- Enw
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad
- Enw a chyfeiriad eich ysgol/coleg/prifysgol (os mewn addysg llawn amser)
- Deiliad trwydded yrru
- Iaith ddewisol
- Profiad – cyflogaeth â thal, gwaith gwirfoddol a phrofiad gwaith
- Cymwysterau
- Hyfforddiant/Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Sgiliau, profiad, rhinweddau a chryfderau perthnasol sy'n ymwneud â Disgrifiad y Lleoliad
- Cadarnhad o anableddau

Gofynnir ichi hefyd gwblhau ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal lleoliad i ddarparu eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys eich:

- Oedran
- Rhywedd
- Statws o ran anableddau
- Cenedligrwydd
- Hil
- Hunaniaeth o ran rhywedd
- Statws priodas neu bartneriaeth sifil
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Statws crefydd, cred neu ddi-gred
- Cyfrifoldebau gofalu

**Cynnig lleoliad**

Os yw eich cais yn llwyddiannus ac rydym yn cynnig lleoliad ichi, gofynnir ichi gwblhau cytundeb lleoliad i ddarparu rhagor o wybodaeth bersonol, gan gynnwys eich:

- Dyddiad geni
- Datganiad iechyd ac anghenion arbennig
- Manylion cyswllt brys – enw, perthynas, cyfeiriad, rhif ffôn
- Manylion banc – enw a chyfeiriad y banc/cymdeithas adeiladu, cod didoli, rhif y cyfrif, cyfeirnod y gymdeithas adeiladu
- Enw rhiant/gwarchodwr (o dan 18 oed yn unig)

**Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Os yw eich lleoliad yn chwe wythnos neu'n hirach, cyn y byddwch yn cychwyn gyda ni gofynnir i chi ymgymryd â gwiriad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan wneud cais uniongyrchol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan ddefnyddio'r llwybr ymgeisio ar-lein. Ar ôl ei chyhoeddi, byddwch yn derbyn tystysgrif ac mae'n ofynnol i chi anfon copi ohoni atom. Mae'r dystysgrif yn cynnwys eich:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Manylion am unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu
- Manylion am unrhyw rybuddiadau amodol
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall

**Yn ystod lleoliad**

Gall cyfranogwyr lleoliad hawlio treuliau sydd wedi'u cytuno o flaen llaw yn unol â'r Weithdrefn Hawlio Treuliau Lleoliad I gyflwyno Ffurflen Hawlio Treuliau lleoliad, gofynnir ichi ddarparu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys eich:

- Enw
- Cyfeiriad
- Eich rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Manylion banc – enw a chyfeiriad y banc/cymdeithas adeiladu, cod didoli, rhif y cyfrif, cyfeirnod y gymdeithas adeiladu (os nad yw wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Lleoliad)

## Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu i wneud y canlynol:

- Cefnogi a phrosesu eich cais
- Penderfynu a ydych yn addas ar gyfer lleoliad
- Dewis yr ymgeisydd cywir ar gyfer y lleoliad
- Gwarantu cynnig cyfweliad i ymgeiswyr sydd ag anabledd
- Bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol i fonitro a dadansoddi gwybodaeth am amrywiaeth, fel ein bod yn gallu sicrhau bod ein lleoliadau'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, ac nad ydym yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol
- Cysylltu â chi os yw eich cais yn llwyddiannus ac rydym yn cynnig lleoliad ichi
- Ymgysylltu â chi at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch lleoliad
- Cynllunio a rheoli eich lleoliad, gan gynnwys iechyd a diogelwch ac asesu risg
- Creu a rheoli eich cofnod ar ein system Adnoddau Dynol, sef MyNRW
- Nodi a oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd a allai ei gwneud yn ofynnol inni wneud addasiadau rhesymol i'r lleoliad a gynigir
- Gallu cyfathrebu â'r cyswllt rydych wedi'i ddewis mewn argyfwng
- Prosesu hawliau treuliau a gwneud taliad i'ch cyfrif banc i'ch ad-dalu

## Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol ar gyfer lleoliadau fel a ganlyn:

- Erthygl 6 – 'Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract gyda gwrthrych y data'
- Erthygl 9 – 'Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau'r rheolydd neu wrthrych y data yn y maes cyflogaeth'
- Erthygl 6 – 'Mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad i'r prosesu'
- Erthygl 9 – 'Mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad eglur i'r prosesu'

## Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â staff Cyfoeth Naturiol Cymru ond er mwyn cynllunio a rheoli eich lleoliad, gan gynnwys:

- Cydlynwyr Lleoliad
- Cyflogeion yn y Tîm sy'n cynnal eich lleoliad
- Cyflogeion yn yr Adran Adnoddau Dynol
- Cyflogeion yn y Tîm Cyllid
- Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb

## Unrhyw drosglwyddo i drydydd partïon a'r mesurau diogelu sydd ar waith

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw drydydd partïon.

## Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?

Os nad yw eich cais am leoliad yn llwyddiannus, bydd eich manylion yn cael eu dinistrio mewn modd cyfrinachol ar ddiwedd y broses ymgeisio. Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw at ddibenion cyfleoedd ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, a'ch bod yn cael cynnig ac yn derbyn lleoliad, bydd eich gwybodaeth bersonol a gesglir gennym yn ffurfio rhan o'ch ffeil bersonél. Bydd eich manylion yn cael eu dinistrio mewn modd cyfrinachol ar ddiwedd eich lleoliad.

## Beth yw hawliau'r unigolyn?

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'r gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol, ac i gywiro, dileu, cyfyngu a chludo eich gwybodaeth bersonol.

Ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth sy'n ymwneud â'ch hawliau.

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru:

E-bost: dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

## Diogelwch eich gwybodaeth

Mae ein systemau Adnoddau Dynol, recriwtio a chyllid, a fydd yn cael eu defnyddio i gadw gwybodaeth bersonol ar gyfer lleoliadau, yn cael eu hamddiffyn i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu mewn modd anghyfreithlon neu heb awdurdod, na chael ei cholli, ei dinistrio neu'i difrodi yn anfwriadol.

## Sut i wneud cwyn

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

www.ico.org.uk